

Cylchlythyr | Circular

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24 - 2027/28

Dyddiad: 26 Mai 2023
Cyfeirnod: W23/12HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: 30 Mehefin 2023
Cyswllt: Enw: Corinne Nguyen
Ffôn: 029 2085 9719
E-bost: corinne.nguyen@hefcw.ac.uk
Enw: Meg Hughes
Ffôn: 029 2085 9716
E-bost: meg.hughes@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau ynghylch cyfnod strategaeth nesaf (2023/24 – 2027/28) Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) a'r gofyniad cysylltiedig am strategaethau pum mlynedd.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, anfonwch neges e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhestr o'r Cynnwys

Cylchlythyr W23/12HE	<ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth a chanllawiau mewn perthynas â chyfnod strategaeth nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (2023/24 – 2027/28) a strategaethau cysylltiedig
Dogfennau i'w cyflwyno 30 Mehefin 2023	
Atodiad A	<ul style="list-style-type: none">Profforma strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru
Atodiad B	<ul style="list-style-type: none">Mesurau Cenedlaethol – Perfformiad a Rhagolygon
Monitro blynyddol (dogfennau i'w cyflwyno Medi 2024)	
Atodiad C	<ul style="list-style-type: none">Templed Astudiaeth Achos Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Atodiad D	<ul style="list-style-type: none">Templed Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Cyflwyniad

1. Yn dilyn argymhellion [Adolygiad Reid](#), fe ailgyflwynodd CCAUC gymorth ar gyfer arloesi ac ymgysylltu yn 2020/21 trwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) (cyfeirier at [Gylchlythyr W20/09HE](#)).
2. Roedd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'i bwriadu i gefnogi'r ystod eang o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth (KE) sy'n cyfrannu at effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys rôl cenhadaeth ddinesig ehangach sefydliadau. Mae'r cyllid yn darparu cymhelliad i sefydliadau weithio gyda busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i'r gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth hynny sy'n cyfrannu at dwf economaidd, cynhyrchiant a chefnogi rôl cenhadaeth ddinesig.
3. Roedd y cylch cychwynnol o gyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (2020/21 – 2022/23) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno, a chael cymeradwyo, strategaethau tair blynedd a oedd yn canolbwyntio ar dri maes craidd – masnacheiddio a chreu incwm; twf busnesau a chymorth sgiliau; a chenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
4. Dyrannwyd cyllid yn ôl fformiwla a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad gyda'r sector ([Cylchlythyr W19/37HE](#)) ac yn seiliedig ar berfformiad sefydliadol yn erbyn [mesurau cenedlaethol CCAUC](#) a oedd yn deillio o'r [Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned](#) (HE-BCI).
5. I adlewyrchu nod i newid i fodel mwy aeddfed o gymorth ar gyfer arloesi ac ymgysylltu, fe ymgynghorodd CCAUC â rhanddeiliaid allweddol ym mis Mehefin 2022 ynghylch cyfnod nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru a newidiadau posibl i'r fethodoleg ddyrannu ([Cylchlythyr W22/16HE](#)). Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2022 ([Cylchlythyr W22/41HE](#)) ac roeddent yn cynnwys argymhelliad i ddiwygio'r fformiwla cyllido i roi ystyriaeth well i gyfraniad cwmnïau deilliedig a busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion.
6. Fe argymhellodd yr ymarfer ymgynghori hefyd fod y canlynol yn cael eu mabwysiadu ar gyfer cyfnod nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:
 - (i) Bydd y drefn ar gyfer Cyflwyno Strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn newid i gylch 5 mlynedd a bydd yn cadw'r broses o adolygu a diweddarau'n flynyddol;
 - (ii) Bydd y fethodoleg gyllido wedi'i diweddarau'n cael ei defnyddio am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd, ond o bosibl hyd at 5 mlynedd i alluogi proses effeithiol ar gyfer pontio i swyddogaethau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY);
 - (iii) I ddarparu sefydlogrwydd wrth gyflwyno fformiwla gyllido newydd, ni fydd yr un sefydliad yn gweld cwmp o fwy na 5% yn ei ddyraniad ar gyfer 2023/24.
7. Fe argymhellodd yr ymgynghoriad hefyd fod sefydliadau'n mynd i'r afael â'r canlynol wrth ddatblygu strategaethau yn y dyfodol:

- (i) Dangos tystiolaeth o gydweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET) lleol, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach, darparwyr addysg uwch eraill a darparwyr dysgu seiliedig-ar-waith, neu bartneriaid eraill, i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant lleol;
- (ii) Amlygu ble y mae canolfannau rhagoriaeth ymchwil eisoes yn gweithredu fel hybiau arloesi;
- (iii) Adlewyrchu tirwedd polisi a chyllido'r DU trwy aliniad â dogfennau polisi a strategaethau priodol ar lefel y DU a Chymru.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

- 8. Ym mis Medi 2022, cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Gydsyniad Brenhinol, gan ddeddfu ar gyfer sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd. Mae hyn yn nodi uchelgeisiau ar gyfer ymchwil, arloesi a chenhadaeth ddinesig yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun cydweithio.
- 9. Rydym wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn symud ymlaen gydag agweddau ar ein gwaith yr ydym ni'n ystyried eu bod yn dyngedfennol ar gyfer pontio'n esmwyth ac yn effeithiol i'r CADY. Mae ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn nodi y dylem dybio y gall CCAUC "barhau i weithredu a datblygu ei brosesau cyllido a rheoleiddio yn unol â'i bwerau a'i brosesau presennol".

Dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o 2023/24 ymlaen

- 10. Fel gyda chylch cyntaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, mae dwy elfen i'r dyraniad:
 - Bydd yr holl sefydliadau'n cael Grant Capasiti o £250k sydd wedi'i fwriadu i gefnogi twf ac arfer da, galluogi mwy o gydweithio, a sicrhau sefydlogrwydd ar draws y sector.
 - Bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei ddyrannu yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar Fesurau Cenedlaethol CCAUC ar gyfer arloesi ac ymgysylltu. Cyhoeddwyd manylion model diweddaraf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru trwy'r deilliannau ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 (cyfeirier at [Gylchythyr W22/41HE](#)).
- 11. I ddarparu sefydlogrwydd yn ystod y newidiadau i'r fethodoleg gyllido, ni fydd yr un sefydliad yn gweld gostyngiad o fwy na 5%, na chynnydd o fwy na 30%, yn ei ddyraniad o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfer 2023/24. Bydd y paramedrau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol, gyda'r disgwyliad y bydd y gostyngiad blynyddol mwyaf posibl yn newid yn ôl i 10% unwaith y bydd y fethodoleg gyllido wedi ennill ei phlwyf.

Canllawiau cyffredinol ynghylch strategaethau ar gyfer 2023/24-2027/28

12. Mae'r profforma ar gyfer strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'i rannu'n adrannau gan alluogi sefydliadau i nodi meysydd allweddol ar gyfer ffocws strategol ac amlinellu sut y bydd y strategaeth yn ategu polisiau craidd ar gyfer ymchwil ac arloesi ar lefel Cymru a'r DU gyfan. Dylai ceisiadau adlewyrchu uchelgeisiau sefydliadol a bod yn gysylltiedig â strategaethau mewnol, gan hefyd fod yn gyson â dogfen CCAUC [Ymchwil ac Arloesi: Gweledigaeth ar gyfer Cymru](#). Mae'r profforma ar gyfer strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi cael ei ddarparu yn **Atodiad A**.
13. Rhaid i sefydliadau sy'n cael cyllid o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru gyflwyno strategaeth bum mlynedd i gael ei chymeradwyo gan CCAUC. Dylai'r rhain fod yn drywyddion ar gyfer twf, sy'n amlinellu meysydd ffocws allweddol dros y cyfnod. Dylai ceisiadau ystyried y canlynol:
 - Dylai strategaethau gynnwys rhywfaint o fanylion am ymrwymadau a datblygiadau allweddol dros y cyfnod o bum mlynedd. Mae'n bwysig bod y cyfeiriad teithio y mae'r buddsoddiad hwn yn ei ategu'n glir.
 - Dylai strategaethau gynnwys tystiolaeth i ddangos sut y mae sefydliadau'n cydweithio gyda darparwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol lleol neu bartneriaid eraill, fel y bo'n briodol, i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant lleol. Dylai strategaethau adlewyrchu sut y mae cydweithio gyda diwydiant, busnesau a chymunedau ehangach yn ategu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.
 - Dylai strategaethau ystyried dyletswyddau strategol y CADY, fel a nodir yn [Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) 2022](#).
14. Y Mesurau Cenedlaethol ar gyfer arloesi ac ymgysylltu yw'r sail ar gyfer model cyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Gofynnir i sefydliadau gyflwyno rhagolygon 5 mlynedd o berfformiad ar gyfer yr elfennau hynny a ddefnyddir i gyfrifo'u dyraniadau o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ochr yn ochr â'u strategaethau. Mae **Atodiad B** yn darparu templed ar gyfer mesurau cenedlaethol a rhagolygon ar gyfer 2023/24-2027/28. Bydd CCAUC yn darparu templedi i bob sefydliad unigol trwy'r e-bost. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd perfformiad yn erbyn y rhagolygon hyn yn rhan o'r drafodaeth yn y Cyfarfodydd Adolygu Ymchwil ac Arloesi blynyddol rhwng CCAUC a sefydliadau unigol.
15. Dylai sefydliadau sicrhau hefyd bod eu strategaethau'n adlewyrchu ymagwedd ehangach at gyfnewid gwybodaeth, gyda chyllid yn cael ei gyfeirio at weithgareddau nad ydynt yn creu incwm hefyd megis ategu eu rôl cenhadaeth ddinesig. Lle nad yw Mesurau Cenedlaethol yn briodol neu ar gael fel metrigau, anogir sefydliadau i ddatblygu eu dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) sefydliadol eu hunain y gellir eu defnyddio i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd eu strategaeth ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Mae'n bwysig bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn benodol ac yn fesuradwy, er mwyn gallu gwerthuso cynnydd wrth fonitro.

Uchelgeisiau Strategol

16. Dylai sefydliadau ddarparu trosolwg o'u hymagwedd at gefnogi ystod o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut y bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Dylai'r strategaeth adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol ond hefyd ystyried y dirwedd ymchwil ac arloesi ehangach yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Dylai strategaethau fyfyrho hefyd ynghylch sut y mae gweithgarwch yn ystod cyfnod strategaeth 2020/21-2022/23 wedi cael ei wreiddio.
17. Nid oes disgwyliad o gwbl y bydd gan sefydliadau strategaeth cyfnewid gwybodaeth ar wahân. Er y dylai strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru fod yn ddogfennau annibynnol, cydnabyddir y gall fod elfennau cyfnewid gwybodaeth mewn dogfennau sefydliadol eraill megis strategaethau sefydliadol trosfwaol neu strategaethau ar gyfer addysgu ac ymchwil hefyd.

Grant Capasiti

18. Bwriedir i'r cyllid hwn allu cael ei ddefnyddio'n hyblyg i danategu staff a chyfleusterau sy'n galluogi sefydliadau i ddiwallu anghenion busnes yn well, ategu cynhyrchiant a gwella gweithgareddau cenhadaeth ddinesig.
19. Efallai y bydd sefydliadau'n dymuno ystyried y defnyddiau canlynol ar gyfer y cyllid:
 - Staff i gefnogi timau ymchwil ac arloesi / cenhadaeth ddinesig ac i gefnogi twf perfformiad ar draws holl feysydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru gan gynnwys menter;
 - Cymorth i gydweithio gyda darparwyr eraill (darparwyr AU a/neu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol) a phartneriaid yng Nghymru, neu lle y bo'n briodol i genhadaeth y sefydliad, ledled y DU ac yn rhyngwladol.
 - Gwaith mewn partneriaeth a darbodion maint sydd â'r potensial i, er enghraifft, gynyddu'r incwm allanol a geir, neu gynyddu graddfa ddaearyddol ac effaith cydweithio llwyddiannus neu ymyriadau cenhadaeth ddinesig.

Gweithgarwch masnacheiddio / creu incwm

20. Dylai sefydliadau ddarparu manylion sy'n dangos sut y bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei defnyddio i ategu a darparu cymhelliad ar gyfer cynnydd mewn incwm allanol o fusnesau neu gyrff cyllido eraill yn y DU fel a fesurir gan yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned. Gellir defnyddio'r cyllid yn hyblyg i gefnogi ystod o weithgareddau sy'n ategu gweithgareddau masnacheiddio a chreu incwm megis:
 - Datblygu mentrau cydweithio newydd gyda diwydiant, BBChau, y sector cyhoeddus, y trydydd sector, Canolfannau Catapwl ac ati
 - Ymgysylltu â Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN)
 - Cefnogi cydweithio rhwng darparwyr AU ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i ddiwallu anghenion busnesau lleol

- Ymgysylltu â phartneriaethau datblygu economaidd rhanbarthol megis Bargaenion Dinesig / Twf a/neu gynghorau lleol
 - Darparu'r seilwaith a rhoi'r cymorth i alluogi busnesau a phartneriaid eraill i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phrifysgolion
 - Gweithgareddau i gefnogi a chynyddu meysydd incwm yr adroddir arnynt yn yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned e.e. ymchwil gydweithredol, ymgynghoriaeth, contract, cyfleusterau, eiddo deallusol (IP), datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), incwm adfywio
 - Diwallu anghenion diwydiant trwy e.e. partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth (KTP), trosglwyddo technoleg neu allbynnau a deilliannau eraill â ffocws penodol
 - Manylion prosiectau/cydweithio penodol sydd yn y cam cynllunio ar hyn o bryd a fydd yn cael eu cefnogi trwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru.
21. Ochr yn ochr â thargedau Mesurau Cenedlaethol CCAUC, dylai strategaethau gynnwys targedau / Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol, lle y bo'n briodol, y gellir eu defnyddio i fonitro llwyddiant y strategaeth.
22. Dylai sefydliadau amlygu ble y mae canolfannau rhagoriaeth presennol yn gweithredu fel hybiau arloesi a sut y maent wedi cyfrannu at yr agenda arloesi ehangach trwy alluogi masnacheiddio, cydweithio ac ati.

Cymorth ar gyfer tyfu busnesau newydd a sgiliau

23. Dylai sefydliadau egluro sut y byddant yn parhau i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesi ar gyfer eu myfyrwyr, graddedigion ac aelodau o staff.

Gall hyn gynnwys:

- Rhoi cymorth ar gyfer cwmnïau deilliedig a busnesau a gychwynwyd gan raddedigion/staff
- Datblygu diwylliant o greadigrwydd, arloesi ac entrepreneuriaeth sy'n ategu uchelgeisiau entrepreneuriaid myfyrwyr a graddedigion
- Gwella gweithgareddau presennol i wreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm
- Datblygu partneriaethau gyda busnesau lleol i ddiwallu eu hanghenion o ran sgiliau
- Adeiladu ar gysylltiadau â gweithgareddau entrepreneuriaid eraill megis y rhai a amlygir yn Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru
- Gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol eraill, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol neu bartneriaid strategol eraill i ddatblygu a gwella hyfforddiant sy'n diwallu anghenion diwydiant lleol i hybu twf economaidd a darpariaeth DPP sy'n diwallu anghenion diwydiant
- Cydweithio ar draws sectorau gyda rhanddeiliaid allweddol eraill i fynd i'r afael â bwlch cynhyrchiant Cymru

Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

24. Mae gweithio gyda'r cymunedau lleol ar weithgarwch seiliedig-ar-le'n allweddol i ffyniant cymdeithasol ac economaidd ac yn greiddiol i Weledigaeth CCAUC ar gyfer Ymchwil ac Arloesi. Mae gweithgareddau cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd yn ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ddarparu tystiolaeth ac amlinellu uchelgeisiau ar gyfer gwaith cenhadaeth ddinesig seiliedig-ar-le sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi o fewn cymunedau sydd wedi'i fwriadu i wella bywydau a chefnogi'r economi.
25. Dylai gweithgarwch cenhadaeth ddinesig a gynhwysir yn strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru gynnwys cysylltiadau ag ymchwil ac arloesi. Mae'r canlynol yn rhestr o enghreifftiau o weithgarwch arfer da. Fodd bynnag, ni ddylai sefydliadau deimlo'u bod wedi'u cyfyngu i'r awgrymiadau hyn wrth ddiffinio eu huchelgeisiau dinesig:
- Ymgysylltu â chymunedau lleol i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol
 - Cysoni â gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Iechyd, Bargaenion Dinesig a Thwf, Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol
 - Cefnogaeth i'r gymuned a gweithgareddau seiliedig-ar-le e.e. mentrau cymdeithasol
 - Partneriaethau strategol gyda chyfranwyr lleol a rhanbarthol eraill, e.e. mudiadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, i gyd-dylunio datrysiadau i faterion lleol a rhanbarthol
 - Cefnogaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil (PER).
 - Cryfhau partneriaethau strategol gyda darparwyr eraill addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddeall yn well beth yw anghenion cyflogaeth a sgiliau cymunedau lleol a diwydiannau ac ymdrin yn well â hwy
 - Ymgysylltu ag ysgolion, gan gynnwys dulliau arloesol o gefnogi cyrff llywodraethu ysgolion
 - Ymgysylltu â Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru i rannu arfer da a gwella cyfraniad y sector at gymdeithas Cymru
26. Dylai'r adran hon gynnwys targedau neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ychwanegol sy'n gyson â blaenoriaethau sefydliadol. Dylai Dangosyddion Perfformiad Allweddol fod yn fesuradwy i alluogi CCAUC i fonitro cynnydd dros ffrâm amser o 5 mlynedd. Mae disgwyl i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol fod wedi'u gwreiddio yn ymagwedd sefydliadau at eu cenhadaeth dinesig ar y cyfan a byddant yn cael eu monitro felly.
27. Anogir sefydliadau i ystyried meysydd gweithredu allweddol y [Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig](#) wrth osod eu targedau ar gyfer cenhadaeth ddinesig, sef:
- Safle arweiniol – ymgysylltu ag arweinwyr dinesig allweddol eraill ar lefel genedlaethol a chymunedol

- Cyfrannu at wella safonau addysgol trwy ddatblygu cysylltiadau gydag ysgolion, colegau ac amgylcheddau dysgu eraill
- Datblygu dinasyddiaeth weithredol
- Gweithredu fel sbardun ar gyfer menter gymdeithasol, sgiliau busnes a chyflogadwyedd
- Ymateb i sefyllfaoedd byd-eang

Concordat Cyfnewid Gwybodaeth

28. Menter a arweinir gan y sector yw'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth, i gydnabod, datblygu a gwella'r lluo o wahanol ffyrdd y mae darparwyr addysg uwch yn ymgysylltu â chyfnewid gwybodaeth. Mae ymrwymiad sefydliadol parhaus i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn un ragofynion Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Gofynnir i sefydliadau gadarnhau eu hymrwymiad i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth fel rhan o'u strategaeth pum mlynedd (gweler Atodiad A).

Aliniad Strategol

29. Bydd angen i strategaethau ddangos sut y mae eu huchelgeisiau'n ategu pedwar congifaen Gweledigaeth CCAUC ar gyfer Ymchwil ac Arloesi (Rhagoriaeth, Lle, Arloesi a Chydweithio).
30. Dylai strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ystyried y dirwedd ymchwil ac arloesi ehangach yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol hefyd. Mae strategaethau perthnasol yn cynnwys:

Llywodraeth Cymru

- [Strategaeth Arloesi](#)
- [Y Rhaglen Lywodraethu](#)
- [Pum blaenoriaeth ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi](#)

Llywodraeth y DU

- [Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg](#)
- [Strategaeth Arloesi'r DU](#)
- [Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r DU 2022-27](#)

Gofynion statudol

31. Dylai holl strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru a gyflwynir gan sefydliadau Cymru gadarnhau bod asesiad o'r effaith wedi cael ei gynnal. Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth am yr asesiad effaith hwn. Mae'n ofynnol cadarnhau hefyd bod strategaethau'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018, ac yn ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyflwyno ac asesu Strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

32. Dylid cyflwyno strategaethau i CCAUC erbyn **30 Mehefin 2023** i corinne.nguyen@hefcw.ac.uk a meg.hughes@hefcw.ac.uk.
33. Bydd CCAUC yn cynnull panel o arbenigwyr i ddarparu adborth a sicrhau bod y strategaethau a gweithgareddau arfaethedig yn gyson ag amcanion Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Dylai strategaethau gael eu cwblhau a'u cyhoeddi ar-lein ar wefan y sefydliad erbyn blwyddyn academaidd 2023/24.

Talu dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

34. Yn dilyn cymeradwyo strategaethau, bydd taliadau cyllid ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n dechrau ym mis Awst 2023. Bydd sefydliadau'n cael taliadau'n fisol gan ddilyn proffil taliadau blynyddol safonol CCAUC.

Rhagolygon y Mesurau Cenedlaethol

35. Bydd hefyd yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno rhagolygon y Mesurau Cenedlaethol erbyn **30 Mehefin 2023**. Bydd templedi'n cael eu darparu i sefydliadau unigol trwy e-bost.

Gofynion monitro blynyddol Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24 – 2027/28

36. Darperir cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn dilyn cyflwyno, a chymeradwyo, strategaeth pum mlynedd sy'n amlinellu uchelgeisiau sefydliadol ar gyfer ystod o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth. Mae proses Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n galluogi sefydliadau i ddiweddarau eu strategaethau'n flynyddol fel rhan o'r gweithdrefnau monitro. Bob blwyddyn, bydd angen i sefydliadau gyflwyno'r canlynol:
 - (i) Adroddiad Cynnydd Blynyddol
 - (ii) Astudiaeth Achos Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
37. Bydd angen i sefydliadau gyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol a hwnnw'n nodi cynnydd yn erbyn Mesurau Cenedlaethol CCAUC ac unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol o fewn y strategaeth. Mae **Atodiad C** yn darparu templed ar gyfer Adroddiad Cynnydd Blynyddol. Bydd CCAUC yn diweddarau'r Adroddiadau Cynnydd Blynyddol â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodir yn y strategaethau sefydliadol a gyflwynwyd i Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, ac yn anfon y templedi hyn ymlaen at sefydliadau unigol ym mis Awst 2024.
38. Lle mae cyllid o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, neu ffactorau allanol, wedi arwain at newid mewn cyfeiriad teithio neu mewn ffocws, mae gan sefydliadau'r dewis i ddiwygio neu ddiweddarau eu strategaeth. Gall sefydliadau ddewis diwygio'u deilliannau a ragwelir o'r Mesurau Cenedlaethol mewn ymgynghoriad â CCAUC hefyd.

39. Nid yw'n ofynnol cynnwys adroddiad manwl ar wariant fel rhan o'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol. Fodd bynnag, mae CCAUC yn disgwyl bod maint y gweithgarwch yr adroddir arno'n rhoi adlewyrchiad llawn o swm y cyllid a gafwyd gan y sefydliad yn y flwyddyn honno. Os ydym yn ystyried nad felly y mae hi, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i roi cyfrif am y dyraniad cyllid.

Astudiaeth Achos Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

40. Oherwydd diffyg data cadarn a chyson, nid yw methodoleg Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cynnwys unrhyw fesurau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chenhadaeth ddinesig. Er mwyn cofnodi gweithgarwch o'r fath, mae CCAUC yn gofyn i sefydliadau gyflwyno astudiaeth achos flynyddol sy'n gysylltiedig â Chenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Dylai astudiaethau achos fod yn glir ynghylch effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar ddatblygu'r gweithgaredd a amlygir e.e. buddsoddi'n uniongyrchol, costau cyfalaf, staff cyfnewid gwybodaeth canolog tanategol.
41. Mae **Atodiad D** yn darparu templed ar gyfer sefydliadau i ddarparu astudiaeth achos o'r effaith sy'n amlygu ymyriadau llwyddiannus o ran cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
42. Bydd gwybodaeth mewn strategaethau ac astudiaethau achos yn cael ei defnyddio gan CCAUC ar gyfer sesiynau briffio allanol cyffredinol ac i gyfleu'r ystod amrywiol o weithgareddau ymchwil ac arloesi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Ymchwil ar Arloesi'r DU, Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Llywodraeth y DU ac eraill.
43. Bydd angen cyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r astudiaeth achos ar gyfer 2023/24 erbyn **Medi 2024**.

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:

44. Cysylltwch â Corinne Nguyen Corinne.nguyen@hefcw.ac.uk neu Meg Hughes (meg.hughes@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisiau

45. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio at ddibenion asesu effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ni. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

Amserlen

Camau Gweithredu	Dyddiadau
Cyhoeddi Cylchlythyr Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru	Mai 2023
Cyflwyno strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24-2027/28 (Atodiad A)	30 Mehefin 2023
Cyflwyno rhagolygon y Mesurau Cenedlaethol (Atodiad B)	30 Mehefin 2023
Adolygiad y panel o strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru	Gorffennaf 2023
Taliad misol cyntaf o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru	Awst 2023
Cyhoeddi strategaethau wedi'u cymeradwyo ar wefannau SAUau	Medi 2023
CCAUC i gylchredeg Templed wedi'i ddiweddarau ar gyfer Adroddiad Cynnydd Blynyddol	Awst 2024
Cyflwyno'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar 2023/24 (Atodiad C)	Medi 2024
Cyflwyno'r Profforma Astudiaeth Achos Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Atodiad D)	Medi 2024

Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24 – 2027/28

Sefydliad:	
Arweinydd strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:	
E-bost:	

Adran A: Trosolwg

1. Uchelgeisiau strategol

Darparwch drosolwg o ymagwedd pum mlynedd eich sefydliad at gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a sut y bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Efallai y byddwch yn dymuno amlygu meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a sut y mae'r rhain yn gyson â'ch cenhadaeth sefydliadol a strategaethau mewnol. [uchafswm o 250 o eiriau]

2. Grant Capasiti

Darparwch rywfaint o naratif i egluro sut y mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti o £250k sydd wedi'i gynnwys yng Nghronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Sut fydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a rhoi cymhelliad ar gyfer perfformiad a gwella perfformiad o ran cyfnewid gwybodaeth? [uchafswm o 250 o eiriau]

Adran B: Cynnwys penodol

3. Gweithgarwch masnacheiddio / creu incwm

Mae Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'i bwriadu i roi cymhelliad ar gyfer perfformiad a gwobrwyo perfformiad, yn enwedig o ran cael incwm allanol.

Darparwch fanylion sy'n egluro sut y bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei defnyddio i alluogi eich sefydliad i dyfu ei incwm allanol fel a fesurir gan yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned. Beth yw'r meysydd buddsoddi a thwf allweddol? Sut fydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru? Pa weithgarwch newydd fydd yn cael ei gefnogi? Mae canllawiau pellach ynghylch yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio o ran effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]

Amlygwch ganolfannau rhagoriaeth ymchwil sydd eisoes yn gweithredu fel hybiau arloesi.

3.1 Darparwch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer gweithgarwch masnacheiddio a chreu incwm:

4. Cymorth ar gyfer tyfu busnesau newydd a sgiliau

Amlinellwch y cymorth yr ydych yn bwriadu ei roi ar gyfer busnesau newydd, cwmnïau deilliedig a chyrraedd targedau cynlluniau megis Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru. Darparwch wybodaeth ynglŷn â ble y bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n ychwanegu gwerth at weithgareddau presennol, a ble y mae'n eich galluogi i fuddsoddi mewn twf pellach. Amlinellwch sut y bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei defnyddio i ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesi ar gyfer myfyrwyr, graddededigion ac aelodau o staff. Mae canllawiau pellach ynghylch yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio o ran effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]

4.1 Darparwch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cymorth ar gyfer tyfu busnesau newydd a sgiliau

5. Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Amlinellwch sut y bydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig seiliedig-ar-le'n eang, yn ymgorffori ystod helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau AU-AB ym maes sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ymchwil, a helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Byddai cymorth ar gyfer y gymuned ar safle'r brifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd i gefnogi cenhadaeth ddinesig. Mae canllawiau pellach ynghylch yr adran hon ar gael yng Nghylchlythyr W23/12HE. Dylai eich ymateb gael ei fframio o ran effaith Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. [Uchafswm o 500 o eiriau]

5.1 Darparwch fanylion Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

**Adran C: Cysoni â pholisi a blaenoriaethau
6. Cysoni â Pholisi Cymru a'r DU**

Disgrifiwch sut y mae eich strategaeth ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n gyson â pholisïau seiliedig-ar-le perthnasol ar lefelau rhanbarthol, Cymru a'r DU megis, er enghraifft, bargeinion twf prifddinas-ranbarth / rhanbarthol lleol. (Gweler Cylchlythyr W23/12HE, paragraff 30) [Uchafswm o 500 o eiriau]

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Darparwch wybodaeth benodol ynglŷn â sut y bydd strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n ategu'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio, yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#); [Uchafswm o 250 o eiriau]

8. Effaith ar y Gymraeg

Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiad Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle y bo'n briodol efallai y byddwch yn dymuno cyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu [Cymraeg 2050](#). [Uchafswm o 250 o eiriau]

Adran D: Defnyddio Cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Sut mae eich dyraniad o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a nodir yn Adran B, a beth yw eich blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer defnyddio arian o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru mewn blynyddoedd yn y dyfodol? [Uchafswm o 250 o eiriau – neu atodwch dabl sy'n amlinellu meysydd buddsoddi bras]

Adran E: Gofynion Rheoleiddiol <i>DS: Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth / eglurhad mewn perthynas ag unrhyw un o'r meysydd hyn</i>	
i) Safonau'r Gymraeg (2018) <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Dewiswch eitem.
ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Dewiswch eitem.
iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i>	Dewiswch eitem.
Yr wyf yn cadarnhau bod y Brifysgol yn ymrwymedig i egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'i bod yn gwbl ymrwymedig i'w wyth egwyddor arweiniol.	
Llofnod: Is-Ganghellor	
Dyddiad	

HEBCIS data used in RWIF funding model (sample spreadsheet)

Performance data 2020/21 - 2022/23

Forecasts 2023/24 - 2027/28

HE provider:

Confirmed data		
2020/21	2021/22	2022/23

Forecasts				
2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28

Name	Source	£000s		
Collaborative research involving both public funding and funding from business: Total Income	HE-BCI Table 1 - Item 1e			
Contract research: Total Income	HE-BCI Table 1 - Item 2h			
Consultancy contracts: Total Income	HE-BCI Table 2 - Item 1h			
Facilities and equipment related services: Total Income	HE-BCI Table 2 - Item 2h			
CPD courses and CE: Total Revenue	HE-BCI Table 2 - Item 3e			
Regeneration and development: Total income (excl. Capital Income)	HE-BCI Table 3 - Item 1f			
Intellectual Property : Total revenue (incl. sale of shares in spin-offs)	HE-BCI Table 4 - Item 3f			

£000s				

		Number of:		
Spin-offs: number still active which have survived at least three years (HEP ownership + non HEP owned)	HE-BCI Table 4 - Item 4ai & ii			
Graduate start-ups: number still active which have survived at least three years	HE-BCI Table 4 - Item 4aiv			

Number of:				

CPD courses and CE - total number of learner days delivered by Welsh HEIs for continuing professional development and continuing education	HE-BCI Table 2 - Item 3f			
--	--------------------------	--	--	--

--	--	--	--	--

Additional Institutional KPIs (Optional)	Not recorded by HE-BCI
KPI1	
KPI2	
KPI3	
KPI4	

Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24-2027/28

Adroddiad ar sut y mae buddsoddiadau wedi galluogi cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Sefydliad:	
Arweinydd strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:	
Manylion cyswllt:	

1. Grant Capasiti
<i>Darparwch ddiweddariad ar fuddsoddiadau a wnaed gan ddefnyddio'r elfen Grant Capasiti o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru.</i>

Adran B: Cynnwys penodol

2. Gweithgarwch masnacheiddio / creu incwm

Darparwch ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodir yn strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Amlinellwch yn glir ble y mae gweithgaredd yn mynd rhagddo'n barhaus a graddfeydd amser tebygol ar gyfer cyflawni. Nodwch yn glir a fu newid mewn blaenoriaethau a nodwch unrhyw newidiadau i'r ffocws a chyflawni. [Sylwer: dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru].

Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol.

Darparwch ddiweddariad sy'n egluro sut y mae buddsoddiadau wedi galluogi cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

3. Cymorth ar gyfer tyfu busnesau newydd a sgiliau

Darparwch ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodir yn strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Amlinellwch yn glir ble y mae gweithgaredd yn mynd rhagddo'n barhaus a graddfeydd amser tebygol ar gyfer cyflawni. Nodwch yn glir a fu newid mewn blaenoriaethau a nodwch unrhyw newidiadau i'r ffocws a chyflawni. [Sylwer: dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru].

Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol.

Darparwch ddiweddariad sy'n egluro sut y mae buddsoddiadau wedi galluogi cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

4. Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Darparwch ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodir yn strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Amlinellwch yn glir ble y mae gweithgaredd yn mynd rhagddo'n barhaus a graddfeydd amser tebygol ar gyfer cyflawni. Nodwch yn glir a fu newid mewn blaenoriaethau a nodwch unrhyw newidiadau i'r ffocws a chyflawni. [Sylwer: dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru].

Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol.

Darparwch ddiweddariad sy'n egluro sut y mae buddsoddiadau wedi galluogi cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Dyrennir Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n flynyddol i gefnogi'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun strategol pum mlynedd. Mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'u dyraniad blynyddol yn llawn i gefnogi'r gweithgareddau a nodir yn eu strategaeth.

Ceidw CCAUC yr hawl i adennill cyfran o'r cyllid os ystyrir bod lefel y gweithgarwch yn anghymesur â'r cyllid a ddarparwyd, neu os yw sefydliadau'n methu'n gyson â dangos cynnydd yn erbyn eu cynllun strategol.

Yr wyf yn cadarnhau bod cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfer 2023/24 wedi cael ei wario yn unol â thargedau a chynnwys y Strategaeth sefydliadol ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru a gymeradwywyd gan CCAUC.

**Llofnod:
Is-Ganghellor**

Dyddiad

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2023/24

Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: templed ar gyfer astudiaethau achos

Sefydliad:	
Thema Cenhadaeth Ddinesig (dewiswch o'r gwymprestr):	Choose an item.
Conglfeini'r Weledigaeth ar gyfer Ymchwil ac Arloesi (dewiswch y rhai sy'n berthnasol):	<input type="checkbox"/> Rhagoriaeth <input type="checkbox"/> Lle <input type="checkbox"/> Arloesi <input type="checkbox"/> Cydweithio
Teitl yr astudiaeth achos / y prosiect / y fenter:	
Disgrifiad cryno: (uchafswm o 150 o eiriau) [Rhowch ddisgrifiad byr o'r prosiect, gan gynnwys grwpiau yn y gymuned yr ymgysylltwyd â hwy a sut y cafodd ei gyllido. A oedd y prosiect yn seiliedig ar dystiolaeth / wedi'i oleuo gan ymchwil?]	
Effaith y prosiect / y fenter: (uchafswm o 200 o eiriau) [Disgrifiwch effaith wirioneddol y fenter, gan gynnwys mewnwelediadau a gafwyd, a deilliannau cadarnhaol (pa un a oeddent yn fwriadol ynteu heb eu rhagweld)]	

Gweithgarwch yn y dyfodol: (uchafswm o 150 o eiriau)

[A yw'r prosiect yn gynaliadwy yn awr, ynteu a oes cynlluniau ar gyfer prosiectau dilynol – os felly, sut fydd y rhain yn cael eu cyllido?]

Dyfyniad(au) e.e. gan bartner allanol y prosiect: (oddeutu 60 o eiriau)

[Mae potensial i CCAUC gyhoeddi'r astudiaeth achos hon – darparwch ddyfyniad sy'n helpu i ddangos effaith ymgysylltu]

Cysylltiadau:
(gwefan; enw cyswllt; e-bost; ffôn)

Sut wnaeth y gweithgarwch helpu i ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (dewiswch y rhai sy'n berthnasol):	<input type="checkbox"/> Cymru lewyrchus <input type="checkbox"/> Cymru gydnerth <input type="checkbox"/> Cymru iachach <input type="checkbox"/> Cymru sy'n fwy cyfartal <input type="checkbox"/> Cymru o gymunedau cydlynus <input type="checkbox"/> Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu <input type="checkbox"/> Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
[Amlinellwch yn fyr sut yr helpodd y prosiect i ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]	
Sut helpodd y gweithgarwch i ategu'r Ffyrdd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (dewiswch y rhai sy'n berthnasol):	<input type="checkbox"/> Hirdymor <input type="checkbox"/> Integreiddio <input type="checkbox"/> Cynnwys <input type="checkbox"/> Cydweithio <input type="checkbox"/> Atal
[Amlinellwch yn fyr sut yr helpodd y prosiect i ategu'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]	